# Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017

**2017 dccc 4**

**2 Gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr dros dro i gymryd lle staff yn ystod gweithredu diwydiannol**

(1) Ni chaiff awdurdod datganoledig Cymreig hurio gweithiwr a gyflenwyd gan berson sy'n cynnal busnes cyflogaeth i gyflawni—

(a) dyletswyddau a gyflawnir fel arfer gan aelod o'i staff ("S") pan fo S yn cymryd rhan mewn streic neu weithredu diwydiannol arall, neu

(b) dyletswyddau unrhyw aelod arall o'i staff a neilltuwyd i gyflawni'r dyletswyddau a gyflawnir fel arfer gan S.

(2) Ond nid yw is-adran (1) yn gymwys pan fo'r streic neu'r gweithredu diwydiannol arall yn answyddogol.

(3) At ddiben yr adran hon mae streic neu weithredu diwydiannol arall yn answyddogol pe bai'n cael ei ystyried yn "unofficial" at ddiben adran 237 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992 (c.52)).

(4) Yn yr adran hon—

mae i "awdurdod datganoledig Cymreig" yr un ystyr â "devolved Welsh authority" yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (*Government of Wales Act 2006 (c.32)*);

mae i "busnes cyflogaeth" yr un ystyr ag "employment business" yn adran 13(3) o Ddeddf Asiantaethau Cyflogaeth 1973 (*Employment Agencies Act 1973 (c. 35)*).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 3**

**I2** A. 2 mewn grym ar 13.9.2017 gan O.S. 2017/903, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017, Adran 2.